sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Crynodeb Gweithredol Ofcom o'r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC

Dogfen ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2017

# Am y ddogfen hon

O dan y Siarter Brenhinol a’r Cytundeb newydd, mae’r gwaith o reoleiddio’r BBC yn cael ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom ar 3 Ebrill 2017. Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom ydy dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus.

Fel rhan o'n dyletswyddau newydd yn rheoleiddio'r BBC, mae'n bwysig bod Ofcom yn ystyried y newidiadau yn chwaethau, agweddau ac arferion y cyhoedd. I’n cynorthwyo i wneud hynny, bob blwyddyn, rydym yn cynnal ymchwil â 3,500 o oedolion o bob cwr o'r DU i holi eu barn ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Fodd bynnag, er mwyn ein cynorthwyo i ddeall barn cynulleidfaoedd ar y BBC ac ar ei ddibenion newydd, rydym wedi comisiynu ymchwil marchnad ansoddol ychwanegol. Fel rhan o’r gwaith hwn, rydym wedi siarad â phobl am yr hyn maent yn ei ddisgwyl gan y BBC, gan archwilio natur unigryw a chael safbwyntiau o bob cwr o'n Gwledydd, ein rhanbarthau a'n cymunedau amrywiol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o brif gasgliadau ein hymchwil, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein hymgynghoriad. Cyhoeddir adroddiad ysgrifenedig llawn yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad er mwyn caniatáu i bobl ystyried y casgliadau manwl.

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol Ofcom o’r Ymchwil i Natur Unigryw’r BBC

## 1.1 Cyflwyniad

Fel rhan o'n dyletswyddau newydd yn rheoleiddio'r BBC, mae'n bwysig bod Ofcom yn ystyried y newidiadau yn chwaethau, agweddau ac arferion y cyhoedd. I wneud hyn, byddwn yn cynnal ymchwil ansoddol a meintiol â chynulleidfaoedd yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ein bod yn dal yn ymwybodol o flaenoriaethau a phryderon pobl, ac o'r hyn maent am ei gael gan y BBC.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal ymchwil â 3,500 o oedolion o bob cwr o'r DU i holi eu barn ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r ymchwil hwn, ynghyd â'r ymchwil o’n trydydd Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, wedi dangos i ni bod y BBC yn dal yn gonglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus a’i fod yn dal i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy’n cael eu gwerthfawrogi gan bobl ar draws y DU[1][2].

Fodd bynnag, mae'r cyd-destun y mae'r BBC yn gweithredu ynddo yn newid yn gyflym. Mae gan wylwyr fwy o ddewis nag erioed erbyn hyn, ac yn defnyddio mwy byth o gynnwys ar-lein ac ar-alwad. Mae pobl ifanc yn arbennig yn fodlon iawn yn defnyddio gwasanaethau ar-lein ac ar-alwad, ac yn gwylio mwy a mwy o gynnwys ar ôl iddo gael ei ddarlledu, a hynny ar draws amrywiaeth o ddyfeisiau. O ganlyniad i’r newidiadau hyn, rydym yn dechrau gweld newid yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd o ran y BBC, ac yn wir y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Teimlwyd felly ei bod yn hen bryd ailgysylltu â chynulleidfaoedd a diweddaru ein dealltwriaeth o'u barn ar y BBC a'i ddibenion newydd, cyn i ni ddechrau ar ein dyletswyddau newydd.

Rydym wedi comisiynu ymchwil ansoddol o'r farchnad er mwyn siarad â phobl am yr hyn maent yn ei ddisgwyl gan y BBC, gan archwilio natur unigryw a chael safbwyntiau o bob cwr o'n Gwledydd, ein rhanbarthau a'n cymunedau amrywiol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o brif gasgliadau ein hymchwil, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein hymgynghoriad. Cyhoeddir adroddiad ysgrifenedig llawn yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad er mwyn caniatáu i bobl ystyried y casgliadau manwls.

[1] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/media/media-releases/2015/psb-review-statement
[2] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/public-service-broadcasting/public-service-broadcasting-annual-report-2016

## 1.2 Canfyddiadau cyffredinol o’r BBC

Yn gyffredinol, teimlwyd bod y BBC yn cynnig allbwn o ansawdd uchel yn gyson ar draws ei lawer o wasanaethau gwahanol, gan ddarparu cynnwys oedd o werth personol i'r cyfranogwyr. Roedd pobl yn cysylltu'r BBC yn gadarnhaol â bod yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Roedd hefyd yn cael ei werthfawrogi fel sefydliad Prydeinig sy'n rhan annatod o gymdeithas Prydain, a hynny'n bennaf oherwydd ei hanes hir ac atgofion melys o'r rôl ddylanwadol mae wedi'i chwarae ym mywyd unigolion a'r genedl gyfan.

Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau o fewn hyn, gyda'r canfyddiadau o'r BBC yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau demograffig. Roedd y safbwyntiau'n amrywio o fod yn gadarnhaol iawn, gyda'r BBC yn cael ei ystyried yn sefydliad dibynadwy sy'n cynnig gwasanaethau dibynadwy o ansawdd uchel, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Cafwyd safbwyntiau eraill a oedd yn fwy negyddol. Roedd rhai yn teimlo bod y BBC yn rhy draddodiadol, nad oedd yn cymryd digon o risgiau, neu ddim yn cynnig digon o gynnwys iddyn nhw'n bersonol.

Roedd cyfranogwyr hŷn a rhai o'r dosbarth canol yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol am wasanaethau’r BBC, gan deimlo y gallant ddibynnu arnynt i gyrraedd safonau uchel o ran ansawdd a phroffesiynoldeb. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr iau a rhai o'r dosbarth gwaith yn fwy tebygol o gael barn lai cadarnhaol ar y BBC, gan ei ddisgrifio yn hen ffasiwn neu ddweud nad oedd yn cynnig llawer sy'n berthnasol iddyn nhw. Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd safbwyntiau cymysg o ran a yw cynnwys y BBC yn gwasanaethu pob grŵp mewn cymdeithas. Roedd rhai yn teimlo bod y BBC yn canolbwyntio'n fwy ar gynulleidfaoedd canol oed a dosbarth canol, gyda llai o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau, pobl o'r dosbarth gwaith a phobl o grwpiau lleiafrifol.

Roedd cryfderau canfyddedig y BBC yn cynnwys:

- Dramâu teledu o ansawdd uchel
- Rhaglenni dogfen ar y teledu a'r radio
- Rhaglenni teledu i blant
- Radio, o ran amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau

Roedd gwendidau canfyddedig y BBC yn cynnwys:

- Comedi ac adloniant ysgafn, yn enwedig ar y teledu
- Rhaglenni chwaraeon, o ran yr amrywiaeth yn hytrach nag ansawdd rhaglenni unigol
- Diffyg o ran cymryd risgiau, gan arwain at ormod o ddibyniaeth ar fformatau a rhaglenni cyfarwydd

Roedd y canfyddiadau o BBC News yn gwrthgyferbynnu ei gilydd braidd, yn enwedig o ran y teledu. Roedd rhai yn ei ystyried yn ffynhonnell ddibynadwy a diduedd o newyddion yr oeddent yn ei dibynnu arni, ac roedd eraill yn poeni ynglŷn ag amhleidioldeb ac mai llais y Sefydliad yw'r BBC.

Roedd gan y cyfranogwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC.

Roedd y canfyddiadau o **wasanaethau radio'r BBC** yn gadarnhaol iawn ymysg y bobl sy'n gwrando arnynt neu'n gyfarwydd â nhw. Roedd y gwrandawyr yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o wasanaethau i wahanol gynulleidfaoedd, ac ansawdd y rhaglenni ar wahanol orsafoedd. Roedd y cyfranogwyr o'r farn fod gan orsafoedd radio'r BBC rai o'r rhaglenni a'r cyflwynwyr gorau sydd ar gael ar y radio. Dywedon nhw hefyd ei bod yn haws dod o hyd i'r math o gynnwys yr oeddent am ei gael gan fod gan orsafoedd a rhaglenni unigol gynulleidfaoedd targed clir iawn, a bod yr hyn yr oeddent yn ei gynnig yn benodol iawn.

Cafwyd safbwyntiau amrywiol ynghylch **gwasanaethau teledu'r BBC**. Roedd rhai pobl yn gadarnhaol iawn, ac yn teimlo bod y BBC yn dal i ddarparu cynnwys cyfarwydd o ansawdd uchel. Roeddent yn teimlo bod y dull cyson hwn yn gwneud gwasanaeth teledu'r BBC yn wahanol i ddarlledwyr eraill. Roedd eraill yn teimlo bod y BBC yn rhy gyndyn o gymryd risgiau. Roedd rhai o'r cyfranogwyr iau yn fwy beirniadol, gan ddadlau bod y ffaith nad yw BBC Three yn cael ei ddarlledu ar y teledu mwyach yn awgrymu nad yw cynhyrchu mwy o gynnwys creadigol ac arloesol i bobl ifanc yn flaenoriaeth i'r BBC. Doedd rhai ddim hyd yn oed yn gwybod bod modd cael gafael ar BBC Three ar-lein o hyd.

Roedd **gwasanaethau ar-lein y BBC** hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan y rheini sy'n eu defnyddio. Er enghraifft, teimlwyd bod gwefannau BBC News, BBC Weather a BBC Sport yn glir ac yn hawdd eu defnyddio, a'r apiau cyfatebol hefyd yn cael eu defnyddio'n aml ac yn uchel eu clod. Disgrifiwyd BBC iPlayer fel bod yn hawdd ei ddefnyddio hefyd, a'i fod yn ffordd dda o gael gafael ar gynnwys o ansawdd uchel o bob rhan o'r BBC. Roedd y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau ar-alwad eraill (fel Netflix ac Amazon Prime) yn teimlo bod angen i'r iPlayer barhau i wella er mwyn cyrraedd eu safon.

## 1.3 Barn ar rôl y BBC mewn cymdeithas a'r dibenion cyhoeddus newydd

Fel rhan o'r ymchwil, dangoswyd Dibenion Cyhoeddus newydd y BBC i'r cyfranogwyr, a gofynnwyd iddynt ystyried pa rai oedd yn bwysig yn eu barn nhw, a hynny iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas yn gyffredinol. Yn gyffredinol, roedd pobl yn meddwl bod y Dibenion yn grynodeb da o'r hyn y dylai'r BBC fod yn anelu at fod ac at ei wneud, a bod y Dibenion yn aml yn adlewyrchu eu barn nhw ar rôl y BBC. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod pob Diben yn bwysig ac yn werthfawr. Eto, cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau yn adlewyrchu gwahanol flaenoriaethau pobl. Wedi'u trefnu'n gyffredinol yn ôl eu pwysigrwydd i gymdeithas:

- ***Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd*** – teimlwyd ar draws y trafodaethau efallai mai hyn sydd bwysicaf i gymdeithas, ond roedd yn flaenoriaeth bersonol i lawer o'r cyfranogwyr hefyd Rhaglenni dogfen ar y teledu a'r radio.

- ***Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU*** – teimlwyd bod hyn yn bwysig i gymdeithas, gyda llawer o gyfranogwyr yn ei nodi fel blaenoriaeth bersonol. Serch hynny, roedd rhai yn cydnabod heriau cyflawni'r diben hwn – yn enwedig y tensiwn rhwng cynnig rhaglenni prif ffrwd a rhai arbenigol, ac amserlennu rhaglenni o'r fath ar sianeli â chyrhaeddiad uchel a rhai â chyrhaeddiad isel. Radio, o ran amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau.

- ***Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed*** – cafodd hyn ei ddisgrifio fel bod yn bwysig i gymdeithas, ond nid oedd yn flaenoriaeth bersonol i gyfranogwyr bob amser.Rhaglenni chwaraeon, o ran yr amrywiaeth yn hytrach nag ansawdd rhaglenni unigol.

- ***Dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau*** – teimlwyd bod hyn yn gyffredinol bwysig yn bersonol, ond yn llai pwysig i gymdeithas o gymharu.

- ***Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd*** – roedd peth ansicrwydd ynglŷn â beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol, a safbwyntiau cymysg o ran pa mor bwysig yw hi bod y BBC yn canolbwyntio ar hyn o ystyried ei flaenoriaethau eraill.

## 1.4 Natur Unigryw a'r BBC

Teimlwyd bod natur y BBC yn unigryw o ran ei gymeriad a'i gynnwys. O ran cymeriad, roedd yn cael ei ystyried yn sefydliad Prydeinig unigryw gyda'r holl hanes sy'n mynd ochr yn ochr â'i gylch gwaith a'i gyllid unigryw. Ond roedd y BBC hefyd yn cael ei ystyried yn unigryw o ran ansawdd ei allbwn, ei ddibynadwyedd a'i dôn broffesiynol. Amlygodd rhai pobl hyn drwy ddweud y byddent yn gwybod mai'r BBC oedd wedi cynhyrchu rhaglen heb i rywun orfod dweud hynny wrthynt. Serch hynny, nid oedd y BBC yn cael ei ystyried yn unigryw o ran bod yn ffres, yn newydd, yn arloesol, yn greadigol na chymryd risgiau.

Roedd y canfyddiadau o'i natur unigryw yn amrywio fesul llwyfan.

Roedd **cynnwys teledu'r BBC** yn cael ei ystyried yn unigryw oherwydd ansawdd uchel ei gynhyrchiad, a dawn a phroffesiynoldeb ei gyflwynwyr. Yn ogystal â hynny, roedd yn cael ei ystyried yn unigryw oherwydd ei ddarpariaeth unigryw o ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig, fel y Gemau Olympaidd neu briodasau brenhinol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn rôl graidd i'r BBC, ac roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ei ddewis ar gyfer y math hwn o gynnwys. Roeddent yn teimlo y byddai ansawdd a manylder y cynnwys yn uwch nag y byddai yn unman arall.

Roedd gwasanaethau teledu'r BBC yn cael ei weld yn arweinydd mewn rhai meysydd. Teimlwyd bod rhaglenni fel *Planet Earth II* a *The Great British Bake Off* yn rhagorol ac yn unigryw o'u cymharu ag unrhyw beth a welir ar sianeli eraill. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y BBC yn dal i gynhyrchu rhaglenni poblogaidd am gyfnod hir, gan gyfyngu ar ei allu i arloesi. Roedd cynulleidfaoedd am weld y BBC yn cymryd rhagor o risgiau gyda'i gynnwys teledu, ond yn parhau i gynhyrchu'r rhaglenni poblogaidd hyn yr oeddent yn eu hoffi. Roeddent yn cydnabod bod hyn yn her sylweddol i'r BBC.

Teimlwyd bod dawn a phroffesiynoldeb cyflwynwyr y BBC – er enghraifft ar raglenni newyddion, materion cyfoes a dogfen – yn unigryw i'r BBC. Serch hynny, doedd cynulleidfaoedd iau ddim yn credu bod hyn yn gadarnhaol bob amser, gan deimlo y gallai fod rhagor o gyflwynwyr a fyddai'n apelio atynt.

Er mwyn bod yn fwy unigryw, roedd cynulleidfaoedd am weld rhagor o amrywiaeth o ran awduron, cynhyrchwyr a thalent ar gynnwys teledu'r BBC. Teimlwyd y gallai'r BBC wneud rhagor i gynrychioli pob rhan o gymdeithas; drwy fod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd a daearyddiaeth, a chael cynrychiolaeth uwch o genedlaethau ifanc.

Roedd **gwasanaethau radio'r BBC** yn cael eu hystyried yn unigryw o ran eu hystod ac ansawdd eu rhaglenni. Teimlwyd eu bod yn gwasanaethu ystod eang o gynulleidfaoedd o bob oed sydd â gwahanol ddiddordebau a chwaethau. Doedd y cyfranogwyr ddim yn credu bod darparwyr eraill yn cynnig yr un amrywiaeth o gynnwys yn ymwneud â cherddoriaeth, chwaraeon, rhaglenni sgwrsio a drama. Yn enwedig, credir bod gorsafoedd fel Radio 1,

Radio 1Xtra, Radio 4 a Radio 6 Music yn darparu rhywbeth yn wahanol i orsafoedd masnachol. Ystyriwyd bod Radio 1 ac 1Xtra yn unigryw o ran darlledu talent newydd o Brydain, a bod yn fwy perthnasol a difyr i wrandawyr iau na gorsafoedd masnachol. Teimlwyd bod Radio 4 yn wahanol o ran ystod ei raglenni a'u hansawdd.

Roedd y mwyafrif yn gadarnhaol iawn o ran gwasanaethau radio'r BBC, ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau sylweddol i wella eu natur unigryw. Fodd bynnag awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai gwasanaethau radio'r BBC fod yn fwy unigryw drwy arddangos mwy byth o gerddoriaeth nad yw'n brif ffrwd, neu drwy roi rhagor o sylw i faterion a cherddoriaeth leol.

**Teimlwyd bod cynnwys ar-lein y BBC yn gyson ac yn glir.** Teimlwyd bod gan wefan BBC News gynllun a brand unigryw, a bod ei fformat clir a dibynadwyedd ei gynnwys yn ei wneud yn wahanol i ddarparwyr eraill. Serch hynny, nid oedd BBC iPlayer yn cael ei ystyried yn unigryw o'i gymharu â dewisiadau eraill, fel Netflix ac Amazon Prime. Roedd yn cael ei ystyried yn hawdd ei ddefnyddio gan grwpiau hŷn, ond yn llai greddfol ac yn disgyn ar ei hôl hi fwyfwy gan genedlaethau iau. Roedd defnyddwyr yn teimlo bod angen i BBC iPlayer addasu drwy gynnig argymhellion a gwneud mwy o gatalogau cyfan o gynnwys teledu ar gael.

Fel rhan o'r broses ymchwil, cyflwynwyd y cyfranogwyr i Atodlen 2 fel y nodir yng Nghytundeb Fframwaith y BBC. Mae ***Atodlen 2*** yn rhoi canllawiau manwl i Ofcom ar sut dylem ddehongli'r gofynion ar y BBC i ddarparu allbwn a gwasanaethau unigryw yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol, ar y teledu, y radio ac ar-lein, a hynny o ran:

- Y gymysgedd o wahanol allbwn a gwasanaethau
- Ansawdd yr allbwn
- Faint o gynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU
- Lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg
- Yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu

Er bod y cyfranogwyr yn cael trafferth gwybod beth yn union y gallai Atodlen 2 ei olygu'n ymarferol heb fwy o fanylion, roeddent yn teimlo ei bod yn mynd i'r afael ag agweddau pwysig ar natur unigryw. Roedd y rhestr hon yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cyfranogwyr o ran cynnwys unigryw; yn benodol, roedd ansawdd yr allbwn, faint o gynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU, a'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu yn bwysig i'r cyfranogwyr.

**Roedd ansawdd yr allbwn yn cael ei ystyried yn bwysig i natur unigryw gan bobl o bob oed a chefndir.** Roedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i wylwyr yn bersonol, ac yn rhywbeth yr oedd y BBC yn ei wneud eisoes, ac y dylai barhau i'w wneud, er mwyn bod yn unigryw.

**Roedd yn bwysig bod gan y BBC allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU ar y teledu a'r radio er mwyn cefnogi awduron, actorion, cerddorion a chyflwynwyr o'r DU.** Roedd hyn yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o rôl y BBC mewn cymdeithas, ac yn rhywbeth y mae eisoes yn ei wneud i ryw raddau. Er enghraifft, roedd canfyddiad fod y BBC yn gwneud hyn yn arbennig o dda o ran cerddoriaeth ar orsafoedd fel Radio 1, Radio 1Xtra a Radio 6 Music.

**Yn sgil cyllid cyhoeddus y BBC, roedd y cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn hollbwysig ei fod yn cynhyrchu cynnwys i wasanaethu amrywiaeth o gynulleidfaoedd.** Teimlwyd bod y BBC eisoes yn gwneud hyn i ryw raddau, ond roedd y cyfranogwyr hefyd yn glir y gallai fod yn gwneud mwy i adlewyrchu a gwasanaethu gwahanol gynulleidfaoedd ar draws y DU, er enghraifft o ran oed, gwlad, cefndir ethnig a dosbarth cymdeithasol.

Lefel y risg a gymerir, arloesedd, her ac uchelgais greadigol oedd yr agwedd o natur unigryw lle cafwyd y mwyaf o herio yn ei chylch. Roedd rhai yn teimlo y dylai'r BBC ganolbwyntio ar yr hyn mae'n ei wneud orau, gan ddadlau nad oes angen i'r BBC gystadlu â phob darparwr arall. Yn benodol, roeddent yn teimlo nad oes modd i'r BBC gystadlu â sioeau â chyllideb uchel o America, ac yn hytrach y dylai flaenoriaethu cynnwys nad yw sianeli eraill yn ei wneud. Fodd bynnag, cafwyd hefyd y farn, ymysg cynulleidfaoedd iau yn arbennig, bod angen i'r BBC addasu a chynhyrchu rhagor o gynnwys arloesol a chreadigol er mwyn parhau i ddenu cynulleidfaoedd ac aros yn berthnasol.

Roedd y cyfranogwyr iau a hŷn am i gynnwys y BBC fod yn unigryw. Roedd y cyfranogwyr hŷn yn ystyried natur unigryw yng nghyswllt safle unigryw'r BBC yn darparu'r math o gynnwys y mae'n ei ddarparu eisoes (ac yn draddodiadol), ac roedd y cyfranogwyr iau yn ystyried natur unigryw yng nghyswllt cynnwys newydd ac arloesol. Yn gyffredinol, yr hyn oedd yn cael ei ffafrio oedd cydbwysedd rhwng mwy o gynnwys arloesol ochr yn ochr â pharhau â chynnwys poblogaidd.

Cynhaliwyd yr ymchwil ansoddol gan Ipsos MORI, gyda'r gwaith maes yn cael ei gynnal drwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror 2017. Er ei fod yn ansoddol ei natur, roedd y prosiect yn gadarn o ran graddfa a chwmpas, gan gynnwys chwe gweithdy 3 awr o hyd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau (Harrow, Peterborough, Leeds, Inverness, Belfast ac Abertawe). Roedd gweithdai ychwanegol llai gyda phobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol, a phobl Du ac Asaidd, yn ogystal â rhywfaint o gyfweliadau manwl â phobl Trawsrywiol. At ei gilydd, siaradodd Ipsos MORI â thua 170 o bobl o bob oed a graddfa gymdeithasol ledled y DU, a hynny ar ran Ofcom. Roedd yr ymchwil yn archwilio barn pobl ar y BBC, ei rôl mewn cymdeithas a'r dibenion cyhoeddus newydd, ochr yn ochr â barn ar natur unigryw a'r BBC.

Mae ymchwil meintiol o'r farchnad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yn canolbwyntio ar farn cynulleidfaoedd ar natur unigryw ymysg sampl cenedlaethol cynrychioladol o 2,100 o bobl, gan gynnwys cyfnerthiadau i ganiatáu dadansoddi ar draws gwledydd, rhanbarthau a chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bwriedir adrodd ar y cam hwn yn Ch2 2017/18.